# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd ar Zoom nos Lun 13eg Rhagfyr 2021

Presennol: Alan Hughes,Siân Parri, Gareth Jones, John Davies, Alyn Williams, Chris Brady, Terry Huws, Henry Huws

Ymddiheuriadau: Humphrey Williams

1. Cadeiriwyd gan Alan Hughes (ar teams) ac estynnodd groeso i bawb.

2. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Sedd Wag -** Derbyniodd y Clerc gadarnhad gan Swyddog o Gyngor Gwynedd ei bod yn iawn i'r Cyngor cymuned gyfethol aelod newydd i lenwi sedd yn Ward Dinas.
   b. **Carafan heb ganiatad yn Llangwnnadl –** Cafodd y Clerc wybod gan Swyddog Gorfodaeth Cyngor Gwynedd eu bod yn delio a'r achos.
   c. **Adroddia Adolygu Drafft Cynllun Datblyru Lleol –** Bydd y cynghorwyr yn anfon eu hymateb au sylwadau yn uniongyrchol at Gyngor Gwynedd.
   ch. **Y Gronfa Datblygu Cynaladwy** – Cafwyd ambell syniad o'r hyn allai elwa o'r cyllid yma:
   Cael hysbysfwrdd newydd ym mhentref Garnfadryn gyda hanes a gwybodaeth am Garn.
   Trwsio'r giât ar y llwybr i fyny'r Garn.
   Angen grid newydd ar yr Odyn Galch ym Mhorthysgaden i rwystro ysbwriel gael ei daflu fewn.
   d. **Gor yrry ar lon y ysgol Tudweiliog** – Anfonodd y Clerc e-bost at yr adran ffyrdd, derbyniodd ymateb yn gofyn iddi gysylltu ar y ffon hefo'r swyddog, ond hyd yma methodd gael gafael ar y Swyddog.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai yntau yn ceisio cael gair a’r Swyddog.

3. Gohebiaeth:

a. **Adran 137 –** Derbyniodd y Clerc wybodaeth gan Llywodraeth Cymru mai swm priodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23 at ddibenion adran 137 yw £8.82

b. **Praesept 2022-23 –** Adroddodd y Clerc fod £8671.00 yn y banc ar y funud, ac o ystyried hyn a’r ffaith fod amgylchiadau Covid yn parhau penderfynwyd dod a’r Praesept i lawr am eleni i £7000.00, bydd y Clerc yn gwybyddu’r adran cyllid o hyn.

c. **Cais Cynllunio C21/1098/46/LL –** Gwyndy, Tudweiliog - Cefnogi

ch **Cais Cynllunio C21/1092/46/DT –** Rhos, Garfadryn - Cefnogi

d. **Datblygiad arfaethedig Penrhos –** Derbynwyd e-bost gan Howard Huws yn adrodd sylwadau Cylch yr Iaith ynghylch Asesiad Effaith Ieithyddol gan Cadnant Planning ar gyfer Clwyd Alyn Housing Ltd ynglyn a datblygiad arfaethedig yn Menhros. Bydd y Clerc yn ymated i’r ebost gan ddiolch am y sylwadau gan ofyn hefyd iddo cadw ni mewn cyswllt pan ddaw unrhyw adroddiad eto ar y cynllun.

**4. Unrhyw fater arall:**

Doedd dim i’w drafod

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 10eg Ionawr 2022 am 7.30yh